EISTEDDFOD GADEIRIOL MAENCLOCHOG 2019

Ar ddydd Llun Calan Mai cynhaliwyd y 74ain Eisteddfod yn Neuadd Gymunedol Maenclochog.
Y beirniaid oedd: Cerdd - **Rhiannon Lewis**, Cwmann Llên - Y Prifardd **Robat Powell**, Treforys a Llefaru **Ann Davies**, Mynachlogddu. Bu cyn brifathro Ysgol Gymunedol Penffordd sef **Ann Morris** o Faenclochog yn beirniadu cystadlaethau llenyddol y plant, a chyn brifathro Ysgol Casmael sef **Alun Ifans**, yn beirniadu'r celf a ffotograffiaeth y plant lleol. Hefina Jones ALCM, oedd y cyfeilydd swyddogol.

Enillydd y Gadair eleni oedd **Terwyn Tomos** o Landudoch. Rhoddwyd y gadair fechan gan y Parch. Geoffrey Eynon o waith llaw David Price o Groesgoch. Yn gyfrifol am lywio'r seremoni oedd Hefin Wyn a chyrchwyd y buddugol i'r llwyfan gan Carol Gibby a Julie Thomas i gyfeiliant Hefina ar y piano. Canwyd cân y Cadeirio gan Brenda Williams a chyfarchwyd y bardd gan Y Prifardd Eirwyn George a Dr Delun Gibby. Braf oedd cael croesawu Owen Edwards i'r llwyfan eleni am y tro cyntaf fel Ceidwad y Clêdd.

Gaenor Mai Jones o Rondda Cynon Taf enillodd Tlws Coffa E Llwyd Williams. Enillodd hefyd Docyn Llyfr yn rhoddedig gan *Clebran* (Papur Bro'r Preseli) yn y gystadleuaeth 'erthygl ar un o bynciau llosg y dydd addas i'w chynnwys yn *Clebran.*'

Cain Hughes o Benrhyn Llŷn oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth Tlws y Llenor Ifanc. Yn anffodus nid oedd Cain yn medru bod gyda ni ond daeth 'Taid a Nain' yr holl ffordd o Bwllheli i dderbyn y Tlws. Cafwyd hanes Cain a detholiad pwrpasol o'i gwaith gan Gwenno Wyn.

Rhinedd Williams o Landdarog (gynt o Faenclochog) oedd enillydd Tlws Coffa Penfro Rowlands am gyfansoddi tôn i eiriau emyn gan y Parch. Huw George, o eisteddfod llynedd, a chafwyd perfformiad o'r emyn yn ystod y seremoni.

Wedi ennill yr un gystadleuaeth yn 2017, braf oedd cael cyhoeddi mae'r **Parchg. Huw George** o Glunderwen oedd yn fuddugol eto eleni yn cyfansoddi geiriau Emyn ar gyfer uno enwadau.

Kira Hannah Harries o Casmael enillodd Tarian Nest am y cystadleuydd mwyaf addawol dan 12 oed.
Fe enillodd **Lefi Dafydd** o Eglwyswrw Tarian Roger Hill am yr offerynnwr mwyaf disglair eleni eto ac aeth Cwpan Coffa Titus Lewis am y cystadleuydd disgleiriaf yr Eisteddfod i **Caleb Nicholas,** Efailwen.

Mrs Iona Daniels, cyn prifathro Ysgol Maenclochog oedd llywydd y dydd. Cafwyd araith ddifyr a pherthnasol ganddi.

Arweinyddion yr Eisteddfod o'r llwyfan oedd Shân Clarke, Meleri Jenkins, Angharad Edwards, Caryl Lewis a Delun Gibby. Diolch i'r Pwyllgor i gyd am eu cyfraniad i sicrhau Eisteddfod lwyddiannus eleni eto.

Canlyniadau

CELF/LLEN (LLEOL)			
	1af	**2ail**	**3ydd**
I blant dosbarth derbyn	Gethin Wade	Olivia Williams	Fury Velky
I blant blwyddyn1	Harper-Kate Miles	Lexi Bacon	Hari-Jac Walkins
I blant lleol blwyddyn 2	Tommy Wade	Ryan Block	Evan Meaden

I blant lleol blynyddoedd 3 a 4	Angharad Williams	Caitlyn Payne	Anna Walden-Jones
I blant lleol blwyddyn 5 a 6	Alaw Thomas	Gethin James	Mary Reed-Moore

Ffotograffiaeth Gynradd: 1af Delor Thomas 2il Alaw Thomas 3ydd Delor Thomas

Ffotograffiaeth Uwchradd**:** 1af Carys Balfour 2il Fflur Griffiths 3ydd Bedwyr Thomas

LLWYFAN

Unawd i blant dan 7 oed (lleol)
1af Delor Thomas 2il Erin Colnet a Miriam Grim 3ydd Lily Williams

Llefaru i blant dan 7 oed (lleol)
1af Delor Thomas 2il Lily Williams 3ydd Miriam Grim

Unawd i blant dan 10 oed sydd heb ennill o'r blaen.
1af Kira Hannah Harries 2il Bronwen Corp 3ydd Teilo Corp

Llefaru i blant dan 10 oed sydd heb ennill o'r blaen
1af Kira Hannah Harries 2il Iestyn Colnet 3ydd Bronwen Corp

Unawd dan 7 oed
1af Miriam Grim a Lily Williams

Llefaru dan 7 oed
1af Miriam Grim a Lily Williams

Unawd 7-9 oed
1af Sara James 2il Cerys Knight 3ydd Kira Hannah Harries

Llefaru 7-9 oed
1af Kira Hannah Harries 2il Cerys Knight 3ydd Sara James a Ianto Evans

Unawd 10-12 oed
1af Gwennan Scourfield 2il Alaw Thomas 3ydd Gethin James

Llefaru 10-12 oed
1af Alaw Thomas 2il Gethin James 3ydd Mary Reed Moore

Darllen o'r Ysgrythur dan 12 oed
1af Sara James 2il Cerys Knight 3ydd Kira Hannah Harries

Unawd Alaw Werin dan 12 oed
1af Cerys Knight 2il Kira Hannah Harries a Sara James 3ydd Caitlyn Payne

Canu Emyn dan 12 oed
1af Kira Hannah Harries 2il Gwennan Scourfield 3ydd Ianto Evans a Sara James

Unawd ar unrhyw Offeryn Cerdd dan 12 oed
1af Alaw Thomas 2il Esyllt Corp 3ydd Ianto Evans a Cerys Knight

Unawd 12-16 oed
1af Cerys Witchelle 2il Iolo Evans 3ydd Seren Lewis a Erin Fflur Morgan

Llefaru 12-16 oed
1af Iolo Evans 2il Erin Fflur Morgan 3ydd Branwen Vaughan

Unawd Cerdd Dant dan 16 oed
1af Begw Fussell 2il Erin Fflur Morgan 3ydd Sara James

Deuawd dan 16 oed
1af Begw Fussell a Seren Lewis 2il Sara James a Cerys Knight 3ydd Jencyn ac Esyllt Corp

Unawd Alaw Werin 12-18
1af Erin Fflur Morgan 2il Begw Fussell 3ydd Iolo Evans

Canu Emyn 12-18
1af Iolo Evans 2il Erin Fflur Morgan 3ydd Begw Fussell a Seren Lewis

Unawd offeryn cerdd 12-18oed
1af Lefi Dafydd 2il Jencyn Corp 3ydd Iolo Evans a Erin Fflur Morgan

Sgen Di Dalent?
1af Cerys Hunt 2il Criw Harmo Ni

Darn heb Atalnodi
1af Buddug Harries 2il Delun Gibby

Unawd yr Hen Ganiadau dros 15 oed

1af Caleb Nicholas
Her Unawd dros 15oed 1af Caleb Nicholas
Parti yn Llafar ganu'r 'Pwnc' 1af Grwp Capeli Tabernacl a Llandeilo
Parti – dros 15 oed i ganu dau ddarn 1af Criw Harmo Ni
Pedwarawd 1af Criw Harmo Ni
Canu Emyn dros 18 oed 1af Caleb Nicholas

LLÊN

Y Gadair - Terwyn Tomos, Llandudoch

Tlws Coffa E Llwyd Williams - Gaenor Mai Jones, Rhondda Cynon Taf

Tlws y Llenor Ifanc - Cain Hughes, Pwllheli

Emyn - Parchg. Huw George, Clunderwen

Erthygl addas i'w chynnwys yn Clebran - Gaenor Mai Jones, Rhondda Cynon Taf.

Soned/Telyneg – 1af Terwyn Tomos, Llandudoch, 2il Gwilym Hughes, Pwllheli

Englyn - 1af Wyn Owens, Mynachlogddu 2ail Les Barker, Bwlchgwyn

Pennill Beddargraff - 1af R.Gwynedd Jones, Ruthun 2ail Mary Morgan Llanrhystud

Limrig - 1af Parchg. Huw George, Clunderwen, 2ail Marian Llewelyn, Crymych

Dysgwyr (oedolion) sydd heb fod yn dysgu Cymraeg am fwy na dwy flynedd –

1af Kathy Sleigh Arberth 2il Kayleigh Paterson, Treletert

Dysgwyr (oedolion) sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg am dros dwy flynedd –

1af Jim Lee, Llandysul 2il Pauline Lee, Llandysul

CYFANSODDI

Cyfansoddi Tôn: Rhinedd Williams, Llanddarog